

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

Mai 12fed, 2014

Presennol: Olwen Jones (yn cadeirio), Gwyn Roberts, Eleri Jones, John Morris, Emyr Jones, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Linda Morris, W D Williams

1. Cymerwyd y gadair gan Mrs Olwen Jones yn absenoldeb Mrs Linda Morris oherwydd amgylchiadau teuluol. Mynegwyd cofion y Cyngor ati.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Chwefror 11eg 2014
5. Materion yn codi o'r Cofnodion: diolchwyd i'r Cyngorydd Sir am drefnu gwelliant i'r ffordd wrth Tŷ'n Gwrych.
6. Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir. Rhoddodd amlinelliad o fwriadau Cyngor Gwynedd i leihau'r gost i drethdalwyr a gwella'r ailgylchu drwy gasglu'r bin gwyrdd (sy'n cynnwys gwastraff na ellir ei ail-gylchu yn unig) bob tair wythnos. Eglurodd bydd gwastraff bwyd, plastig, gwydr a phapur yn cael eu casglu bob wythnos fel arfer. Dywedodd y byddai trefniant arbennig ar gyfer teuluoedd mawr a theuluoedd lle mae babanod. Bydd y cymorth arferol yn parhau i'r henoed a'r anabl wrth i'r gweithwyr fynd i nôl eu biniau hwy. Addawodd Alan Jones Evans y byddai'n parhau i ymdrechu i uwchraddio biniau cymunedol y cymoedd.
7. **Materion ariannol:**
 - i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol, gan gynnwys derbyniadau, sef taliad cyntaf y Praesept.
 - ii. Derbyniwyd gwybodaeth am yr ad-daliad TAW a ddisgwylir.
 - iii. Ystyriwyd cais am gefnogaeth ariannol gan Gymdeithas Glyn a Rhos. Cytunwyd i ystyried y cais gyda cheisiadau eraill ym mis Mawrth.
 - iv. Yn unol â dymuniad Llywodraeth Cymru, rhoddwyd ystyriaeth i agor Cyfrif Cadw, ond cytunwyd nad oedd angen gwneud.
 - v. Ystyriwyd cost cynnal a chadw'r fynwent gan fydd y grant digolledu yn dod i ben. Mae'r costau'n uchel ac nid oes gan y Cyngor incwm i'w talu heblaw am y Praesept, sef "treth leol" ar bob tŷ yn y gymuned. Cytunwyd fod parchu'r fynwent yn bwysig ac yn fater sensitif, ond cytunwyd hefyd nad ydyw'n deg gofyn i'r trigolion dalu am gynnal y fynwent. Cytunwyd:
 - a. Siarad gyda'r swyddog perthnasol am yr angen am rybudd o flwyddyn er mwyn ein galluogi i wneud trefniadau amgen. **Gweithredu: AJE**

- b. Ystyried torri rhan uchaf y fynwent yn unig.
- c. Ystyried rhoi'r rhan yr ochr draw i'r eglwys i'w bori (ar ôl ei ffensio).
- d. Holi am grant i neilltuo'r darn gwaelod ar gyfer blodau gwyllt.
Gweithredu: Clerc, AJE
- e. Holi am gyfraniad y giang cymunedol yn Llangywer **Gweithredu: AJE**
- f. Gofyn i berchennog yr eglwys ystyried rhoi cyfraniad at gynnal a chadw'r fynwent. **Gweithredu: Clerc**
- g. Diddymu'r contract torri gwair ar unwaith a gofyn am bris torri gwair y rhan uchaf yn unig. **Gweithredu: Clerc**
- h. Ystyried rôl posib i wirfoddolwyr yn y gymuned.
- i. Cynnal ymweliad safle yn y fynwent ar ddechrau cyfarfod Gorffennaf.

vi. Cymeradwywyd ffurflenni Hacker Young a'r manylion ariannol ar gyfer yr Archwilwyr.

vii. Cytunwyd i dderbyn cynnig yswiriant Zurich gan ei fod yn sylweddol is na'r pris a dalwyd llynedd.

8. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned – dim byd yn codi

9. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y cydlynnydd a soniodd am waith adeiladu yn Henblas, y gwaith i Barc Cenedlaethol Eryri a chomisiwn i chwilio i ddarpariaeth gelfyddydol yn yr ardal.

Derbyniwyd gyda diolch y cynnig i ddefnyddio am ddim Swyddfa'r Clerc yn Henblas.

Diolchwyd i Linda Morris a W D Williams am gynrychioli Cyngor Cymuned Llangywer ar Bartneriaeth Penllyn a Chwmni Pum Plwy Penllyn cyf

10. Gohebiaeth:

Parc Cenedlaethol Eryri:

- i. Ystyriwyd ymateb Parc Cenedlaethol Eryri i sylwadau'r Cyngor parthed y llwybr march a chais cynllunio diwygiedig y Fach Ddeiliog. Cafwyd adroddiad o'r ymweliad safle ychydig cyn y cyfarfod heno pryd y cytunwyd i geisio cael presenoldeb Liz Haynes i egluro'r angen i adfer y difrod a wneir i'r llwybr gan drafnidiaeth drom. Bydd y cyfarfod am 9.30a.m. ar 19/5/14 yn y Fach Ddeiliog, a gobeithir cynnwys rhai trigolion lleol yn y trafodaethau. Cynhelir cyfarfod brys/ffôn i'r Cyngor ystyried y cais cynllunio ar ôl y cyfarfod gyda Liz Haynes.
- ii. Cadarnhawyd cymeradwyo cais am storfa slyri yn y Gelli Grîn (trafodaeth ffôn nad oedd yn cynnwys Mrs Olwen Jones).
- iii. Cymeradwywyd cais ôl-weithredol i gadw sied yn Nhroed y Glyn NP5/70/117B
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i ail-adeiladu llinell drydan uwchben tir yn Llangywer.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i Gynllun Trydan Dŵr Nant Rhydwen.

- vi. Derbyniwyd gwybodaeth i gais cynllun trydan dŵr ym Mryn Bedwog gael ei wrthod.
- vii. Nodwyd y gwahoddiad i Noson Agored Parc Cenedlaethol Eryri yng Nghoed y Brenin ar 21/5/14

Gwynedd:

Nodwyd llythyr John Wyn Williams parthed Cynllun Datblygu lleol ar y Cyd gyda Môn ond cytunwyd nad oedd yn berthnasol i'r Gymuned hon.

Heddlu:

Derbyniwyd gwybodaeth e-bost am Ymgyrch Darwen - sef ymgyrch sy'n anelu lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol yn ymwneud â beicwyr modur ar ffyrdd Gogledd Cymru.

Llywodraeth Cymru:

Derbyniwyd gwybodaeth nad oes bellach angen mwy nag un i arwyddo sieciau ond cytunwyd i barhau gyda'r arfer o unrhyw 2 allan o 3 enw i arwyddo pob siec. Derbyniwyd gwybodaeth am adroddiad ar drethi ail gartrefi.

Un Llais Cymru:

Diolchwyd i W D Williams am gytuno i gynrychioli'r Cyngor ar y pwyllgor ardal, a derbyniwyd gwybodaeth am y cyfarfod nesaf ar 19/5/14 yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Eraill:

Derbyniwyd llythyrion o ddiolch am gyfraniadau gan Ieuenctid yr Ofalaeth Bro, a Chlybiau Ffermwyr Ieucanc Meirionnydd.

- 11. **Gwefan** – Cytunwyd gyda'r awgrymiadau ar yr hyn i'w gynnwys ar wefan y Cyngor (canllaw Un Llais Cymru). Cytunwyd na ddylid rhoi manylion cyswllt aelodau'r Cyngor, ond yn hytrach nodi y gellid cysylltu trwy'r Clerc.
- 12. Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 14/7/14. Diolchwyd yn gynnes am y baned rhwng y Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod mis Mai.

Amser gorffen: 9.45pm